



PROSIECT PARTH CADWRAETH MOROL, CYMRU CYLCHLYTHYR 1

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Brosiect Parth Cadwraeth Morol, Cymru a sut y bydd rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys. Bydd yn nodwedd reolaidd, yn rhoi'r newyddion diweddaraf am y prosiect.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost i Dîm Morol Llywodraeth Cynulliad Cymru : marine@wales.gsi.gov.uk.

Rhywfaint o gefndir yn gyntaf

Mae **Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009** yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru ddiogelu a rheoli'r amgylchedd morol yn well er mwyn helpu Cymru i gyfrannu tuag at gyflawni'r weledigaeth o foroedd glân, sy'n cefnogi economïau bywiog, ac ecosystemau iach sy'n weithredol ac yn amrywiol o safbwynt biolegol, yn gynhyrchiol ac yn wydn, ac yn cael eu defnyddio mewn modd sensitif a'u rheoli mewn ffordd gyfrifol. Mae'r Amcanion Morol Lefel Uchel¹ ar gyfer y DU yn amlinellu'r cam cyntaf tuag at gyflawni'r weledigaeth hon.

Mae'r pwerau'n cynnwys:

- system cynllunio morol newydd fydd yn cwmpasu'r holl weithgareddau morol allweddol ac a fydd am y tro cyntaf yn cyfuno ac yn egluro'r polisïau cysylltiedig â'r ardal forol, yn y mewndir ac ar y môr. Bydd y system cynllunio morol yn hysbysu ac yn cyfarwyddo penderfynwyr a rhai sy'n defnyddio'r môr i ddefnyddio'r môr yn fwy cynaliadwy; gan sicrhau cyswllt cryf rhwng polisi a datblygiadau a gweithgareddau unigol. Datganiad Polisi Morol y DU² fydd rhan gyntaf y system cynllunio morol newydd sy'n cael ei chyflwyno o gwmpas y DU. Bydd y Datganiad yn amlinellu'r fframwaith polisi ar gyfer ein moroedd ar lefel DU ac yn darparu'r cyd-destun ar gyfer datblygu Cynlluniau Morol, fydd yn rhoi arweiniad polisi a gofodol mwy manwl ar lefel gwlad neu ranbarth. Bydd Cymru'n gyfrifol am ddatblygu cynllun neu gynlluniau morol ar gyfer ardal Cymru yn y mewndir ac ar y môr ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu ymgynghori'n ddiweddarach eleni ar opsiynau ar gyfer cynllunio gofodol yn nyfroedd Cymru;

¹ <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/marinefisheries/marinepolicy/highlevelobjectives/?skip=1&lang=cy>.

² <http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/premarinepolicy/?skip=1&lang=cy>.

Mawrth 2010

- system trwyddedu morol newydd sy'n cyfuno ac yn moderneiddio'r drefn caniatadau bresennol sy'n rheoleiddio gweithgareddau a datblygiadau morol - Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985 a Deddf Diogelu'r Arfordir 1949. Y nod yw dileu'r cymhlethdod a'r gorgyffwrdd sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd a chael proses caniatadau fwy syml, tryloyw ac effeithiol yng Nghymru. Y bwriad yw cyflwyno'r system newydd o Ebrill 2011. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgynghori ar yr egwyddorion cyffredinol ddylai fod yn sail i'r system newydd a byddant yn ymgynghori ar reoliadau manwl yn ddiweddarach eleni;
- mecanwaith newydd ar gyfer diogelu ffawna a fflora, cynefinoedd neu fathau o gynefin neu nodweddion daearegol neu geomorffolegol morol o ddiddordeb trwy ddynodi Parthau Cadwraeth Morol – a fydd yn fath newydd o Ardal Forol a Warchodir. Bydd y safleoedd hyn ynghyd ag arfau rheoli presennol yn cyfrannu tua at wella bioamrywiaeth ac felly hyrwyddo ecosystemau iach sy'n weithredol ac yn wydn. ***Mae'r cylchlythyr hwn yn canolbwyntio ar sut mae Cymru'n bwriadu defnyddio'r mecanwaith newydd hwn.***

PROSIECT PARTH CADWRAETH MOROL YNG NGHYMRU

Roedd papur ymgynghori Llywodraeth y Cynulliad 'Gwarchod Moroedd Cymru - strategaeth ddrafft ar gyfer ardaloedd gwarchodedig morol yng Nghymru' (Medi 2009)³ yn cynnwys y dull arfaethedig tuag at ddefnyddio'r mecanwaith Parthau Cadwraeth Morol newydd. Mae gan Gymru eisoes gryn nifer o Ardaloedd Morol a Warchodir ond er mwyn cael rhwydwaith wedi'i gydgyssylltu'n ecolegol, mae'n ddymunol rhoi lefel uchel o warchodaeth i nifer fach o safleoedd ecolegol bwysig, er mwyn hyrwyddo ecosystemau morol iach, sy'n weithredol a gwydn. Y dull felly yw defnyddio'r mecanwaith Parthau Cadwraeth Morol i ddynodi rhai safleoedd â lefel uchel o warchodaeth. Y cynllun yw bod mewn sefyllfa i adnabod safleoedd ar gyfer eu dynodi erbyn 2012.

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried yr ymatebion ymgynghori; byddwn yn crynhoi'r rhain ac yn eu gosod ar wefan Llywodraeth y Cynulliad, ynghyd â fersiwn derfynol o'r strategaeth yn ddiweddarach eleni.

Yn wahanol i safleoedd dynodedig Ewropeaidd, bydd y broses o ddynodi Parthau Cadwraeth Morol yn gallu rhoi ystyriaeth i faterion cymdeithasol ac economaidd.

Ein bwriad yw cymryd cyfrif o ystyriaethau cymdeithasol ac economaidd er mwyn sicrhau bod safleoedd yn cael eu dethol i gynyddu manteision ecolegol, cymdeithasol ac economaidd, cyn belled ag y bo modd, gan leihau unrhyw wrthdaro â gwahanol ddeunyddiau'r môr yr un pryd.

³ <http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/marineprotectedareas/?skip=1&lang=c>
y

Mawrth 2010

Sut y bydd Prosiect Parthau Cadwraeth Morol, Cymru yn gweithio

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu Grŵp Llywio, Grŵp Cynghori Technegol ac wedi gofyn i Bartneriaeth Forwrol ac Arfordir Cymru sefydlu Grŵp Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Dinasyddion.

Y Grŵp Rhanddeiliaid sy'n darparu cyfeiriad cyffredinol y prosiect, gan sicrhau ei fod yn darparu'r nodau a'r amcanion ar gyfer y cerrig milltir angenrheidiol. Y Grŵp Llywio fydd yn gwneud y penderfyniadau a'r argymhellion terfynol fydd eu hangen drwy gydol y broses, er enghraifft y meini prawf a'r fethodoleg ar gyfer dethol safleoedd terfynol. Daw aelodau'r Grŵp o lefel strategol uwch yn Llywodraeth y Cynulliad ac o'r cyrff cyhoeddus hynny sydd â swyddogaeth uniongyrchol mewn cysylltiad â dynodiad a chynghori ar faterion cadwraeth natur ac economaidd gymdeithasol yng Nghymru; Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Y Grŵp Cynghori Technegol yw cangen weithredol y prosiect sy'n darparu cyngor technegol ac arbenigol (ecolegol ac economaidd gymdeithasol) i'r broses. Mae hyn yn cynnwys pethau fel datblygu canllawiau dethol safleoedd, casglu data a dadansoddi data er mwyn llywio opsiynau ar gyfer safleoedd posibl ar sail y canllawiau a'r data. Mae Aelodau'r Grŵp yn cynnwys arbenigwyr technegol o bob rhan o Lywodraeth y Cynulliad, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu, Seafish, Ystâd y Goron a'r byd academaidd.

Daw y **Grŵp Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Dinasyddion** o dan nawdd Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru. Ei brif rôl yw cynghori'r Grŵp Llywio ar sut fyddai orau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a dinasyddion yng Nghymru, helpu i godi ymwybyddiaeth yn gyffredinol a gweithredu fel sianel i fwydo syniadau i rhanddeiliaid allweddol a chanddyn nhw, ar gyfer y prosiect. Swyddogaeth y Grŵp yw nid gwneud argymhellion ei hunan ar addasrwydd safleoedd posibl ond gofalu, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, fod syniadau'r holl rhanddeiliaid allweddol yn cael eu bwydo i'r broses ac felly'n llywio penderfyniadau. Mae Aelodau'r Grŵp yn cynnwys buddiannau diwydiannol ac amgylcheddol a dewiswyd aelodau ar sail eu gallu i raeadru i rwydweithiau ehangach.

Oherwydd y rhwydweithiau aelodaeth hyn, dylai'r Grŵp ddal ystod eang o rhanddeiliaid yng Nghymru a thu hwnt. Er hynny mae'n anorfod y bydd rhai bylchau ac felly bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgysylltu'n uniongyrchol â rhai rhanddeiliaid.

Amserlen ar gyfer Ymgysylltu

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod buddiannau rhanddeiliaid yn cael eu cynrychioli drwy gydol y broses ac y bydd y safleoedd sy'n ymddangos ar gyfer ymgynghori ffurfiol eisoes wedi cael eu hysbysu gan ac yn ystyried ystod eang o farn rhanddeiliaid. Felly rydym yn cynllunio i gael ymgysylltu anffurfiol a chyn-ymgynghori cynhwysfawr fel elfen allweddol o'r broses cyn ymgynghori'n ffurfiol ar safleoedd arfaethedig. Nid ydym yn disgwyl ymgynghori ffurfiol tan ddiwedd 2011.

Mawrth 2010

Ein bwriad yw mynd ati i ymgysylltu fesul cam, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar godi ymwybyddiaeth o nodau ac amcanion y prosiect a'r trefniadau ar gyfer rheoli'r broses yng Nghymru. Wrth i fwy o fanylion o'r prosiect ddod i'r amlwg - er enghraifft canllawiau dethol, opsiynau safleoedd drafft cychwynnol – byddwn yn symud i ymgysylltu mwy rhyngweithiol â'r sectorau unigol, er enghraifft cynnal cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau gweithdai.

Atodir amserlen ymgysylltu amlinellol ar gyfer 2010-2011 fel atodiad er gwybodaeth bellach.

Mawrth 2010

AMSERLEN AMLINELLOL AR GYFER YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID 2010-2011

BETH	PRYD	PWY
<p>Hysbysu rhanddeiliaid am Brosiect Parthau Morol Cymru a'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan ddefnyddio rhwydweithiau Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru a'r Grŵp Ymgysylltu Rhanddeiliaid a Dinasyddion, a rhwydweithiau eraill lle bo'n briodol.</p> <p>Cyhoeddi Cylchlythyr 1.</p>	Canol Mawrth 2010	Swyddog Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru Aelodau Grŵp Ymgysylltu Rhanddeiliaid a Dinasyddion LICC
<p>Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ganllawiau dethol safleoedd, gan ddefnyddio rhwydweithiau Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru a'r Grŵp Ymgysylltu Rhanddeiliaid a Dinasyddion, a rhwydweithiau eraill lle bo'n briodol.</p> <p>Hysbysu rhanddeiliaid am y canllawiau dethol safleoedd.</p> <p>Darparu adborth i'r Grŵp Cyngori Technegol a'r Grŵp Llywio ar unrhyw sylwadau a dderbyniwyd gan rhanddeiliaid.</p>	Mehefin 2010 Medi 2010	Aelodau Grŵp Ymgysylltu Rhanddeiliaid a Dinasyddion LICC
<p>Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar opsiynau drafft cychwynnol ar gyfer safleoedd, gan ddefnyddio rhwydweithiau Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru a'r Grŵp Ymgysylltu Rhanddeiliaid a Dinasyddion, a rhwydweithiau eraill lle bo'n briodol.</p> <p>Hysbysu rhanddeiliaid am yr opsiynau a cheisio adborth. Bydd hyn yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd rhanbarthol a gweithdai.</p> <p>Darparu adborth i'r Grŵp Cyngori Technegol a'r Grŵp Llywio ar negeseuon rhanddeiliaid allweddol.</p> <p><i>Bydd y cam ymgysylltu hwn yn cael ei ailadrodd wrth i opsiynau gael eu mireinio fwy yn sgil adborth gan rhanddeiliaid. Bydd rhanddeiliaid yn cael y cyfle i wneud sylwadau yn ystod pob cam.</i></p>	Haf 2010 – Ebrill 2011 Haf 2010 – Chwefror 2011 Yn barhaus o haf 2010 - Mawrth 2011	Aelodau Grŵp Ymgysylltu Rhanddeiliaid a Dinasyddion LICC